

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 13 Tachwedd 2019

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 19 TACHWEDD 2019** am **10.00 am yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYG

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 5 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2019 (copi'n amgaaedig).

5 STRATEGAETH LLYFRGELL 2019-22 (Tudalennau 11 - 28)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau (copi ynghlwm) yn cyflwyno'r Strategaeth Llyfrgell 2019 – 22 ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet.

6 ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL CHWARTER 2 – 2019 I 2020 (Tudalennau 29 - 60)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi wedi'i amgáu) yn rhoi diweddariad ar gyflawni Cynllun Corfforaethol 2017-2022 ar ddiwedd chwarter 2 (Gorffennaf i Medi 2019).

7 ADRODDIAD CYLLID (Tudalennau 61 - 78)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn glŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET (Tudalennau 79 - 84)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol amgaeedig y Cabinet a nodi'r cynnwys.

RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL

Dim Eitemau.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Hugh Evans
Bobby Feeley
Huw Hilditch-Roberts
Richard Mainon

Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Brian Jones
Mark Young

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 22 Hydref 2019 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd; Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; a Mark Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel.

Arsylwyr: Y Cynghorwyr Meirick Davies, Alan James, Rhys Thomas, Graham Timms, Huw Williams ac Emrys Wynne

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB) a Chymunedau (NS); Pennaeth Gwasanaeth: Y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd (GW) Swyddog Arweiniol Rheoli Asedau Strategol (TB); Rheolwr Prisiadau ac Ystadau (GT) Prif Gyfrifydd a Swyddog A.151 (SG); Rheolwr Gyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyf (JG) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

3 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 24 Medi 2019 i'w cymeradwyo.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2019 fel cofnod cywir.

5 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb. Rhoddodd grynodedb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn -

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2019/20 oedd £198.538 miliwn (£194.418m yn 2018/19)
- roedd amcanestyniad o orwariant o £1.733 miliwn ar gyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol
- nodwyd fod angen arbedion ac arbedion effeithlonrwydd gwerth £5.672 miliwn, gan gynnwys arbedion corfforaethol a nodwyd yn 2018/19 (£0.5 miliwn), arbedion ysgolion gwerth 2% (£1.32 miliwn) ac arbedion yn y gwasanaethau (£3.852 miliwn).
- Tynnwyd sylw at y risgiau a'r amrywiadau sy'n ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol gan gynnwys newidiadau yn dilyn ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac effaith ar y gyllideb yn dilyn trosglwyddo Cludiant Ysgol o'r Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol i Gynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, a
- rhoddwyd diweddariad cyffredinol ar y Cynllun Cyfalaf, y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai

Gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo trosglwyddo cyllid arian parod o'r Gronfa Wrth Gefn i Gyflawni Arbedion i'r Gwasanaethau Hamdden i'w osod yn erbyn yr angen i ddyrannu i'r arbedion Benthycy Darbodus i'r SC2 yn hytrach nag oedi cyn sefydlu'r Model Darparu Amgen (ADM).

O ran cefndir eglurodd y Cynghorydd Thompson-Hill bod yr achos busnes gwreiddiol ar gyfer SC2 wedi'i briodoli ar gymhorthdal sy'n gostwng nes y cyrhaeddir pwynt o adennill costau ym mlwyddyn 5. Dangoswyd colled yn y gyllideb o £378mil yn y flwyddyn gyntaf gyda nifer o ddewisiadau wedi'u nodi i leihau'r golled gan gynnwys oedi Benthycy Darbodus – gwnaed y penderfyniad o ystyried ei fod yn fusnes newydd ac mae'n debyg y byddai amrywiadau. Ond yn dilyn adolygiad arbedion roedd yn amlwg na fyddai'r cyfanswm arbediad o £850mil yn ymwneud â'r cynnig ADM yn cael ei gyflawni'n llawn ac fel Cyngor penderfynwyd y dylid defnyddio'r dull o oedi'r Benthycy Darbodus i alluogi cyflawni'r arbediad ADM o £850mil fel rhan o broses y gyllideb yn 2019/20, gan leihau'r angen ar gyfer toriadau i wasanaethau eraill. O ganlyniad cynigiwyd bod £612mil yn cael ei ddefnyddio o'r gronfa wrth gefn a sefydlwyd ar gyfer arbedion nas cyflawnir i ddiwallu diffyg cyllid blwyddyn 1 SC2. Er mwyn darparu rhywfaint o sicrwydd yn y dyfodol ar gyfer SC2 roedd y gwasanaeth wedi pwysleisio na fyddai'r sefyllfa yn digwydd eto yn y flwyddyn ariannol nesaf o ystyried y mesurau a roddwyd ar waith.

Cydnabu'r Cabinet eu bod fel Cyngor wedi cael gwybod am y risgiau ariannol a'r amrywiadau posibl ar ddechrau cynllun SC2 ac wedi cynllunio mesurau lliniaru er mwyn mynd i'r afael â nhw. Canmolodd y Cabinet y cyfleuster a oedd yn darparu atyniad cyffrous ac unigryw a chydabod y buddion ehangach i'r economi ac i fusnesau lleol eraill. Yn ystod y drafodaeth ceisiwyd rhagor o eglurder ynglŷn â'r rhesymau dros y cynnydd yn y golled gyllidebol ar gyfer y flwyddyn gyntaf ynghyd â sicrwydd o ran ffigyrau masnachu ariannol y blynnyddoedd sydd i ddod a sicrhau llwyddiant hir dymor parhaus y cyfleuster.

Ymatebodd y Cynghorydd Thompson-Hill i'r materion a godwyd fel a ganlyn-

- yn seiliedig ar y ffigyrau presennol a'r achos busnes diwygiedig roedd hyder y byddai SC2 yn niwtral o ran costau erbyn blwyddyn 5 – fel atyniad roedd y cyfleuster eisoes yn llwyddiant: roedd niferoedd yr ymwelwyr yn uchel ac fe groesawyd y cyfleuster gyda'r pwll yn gweithredu bron yn llawn yn ystod y rhan fwyaf o'r cyfnod masnachu.
- roedd cyfuniad o ffactorau wedi cyfrannu at y diffyg cyllid gan gynnwys (1) colli cyfnod masnachu'r Pasg ar gyfer y Pad Sblasio y tu allan a'r incwm cysylltiedig a ragwelwyd (2) nad oedd Laser TAG wedi denu'r niferoedd a ragwelwyd ond o ganlyniad i farchnata rhagwelir twf yn y dyfodol a (3) gwariant eilaidd ymwelwyr (bwyd/diod ac ati) heb gynhyrchu cymaint o incwm a ragwelwyd a disgwylir y bydd yn cynyddu drwy farchnata ychwanegol.
- gwnaed arbedion o symleiddio'r strwythur staffio a gellir cymryd sicrwydd pellach y byddai'r cyfleuster yn elwa o flwyddyn lawn o effaith arbedion effeithlonrwydd staff a gweithrediad y Pad Sblasio ym mlwyddyn 2, a chynnydd mewn twf gydag incwm wedi'i dargedu o Laser TAG a gwariant eilaidd; byddai arbedion TAW ychwanegol ar gyfer y cwmni ac fe ddylent, gyda'i gilydd, ddiwallu'r diffyg a gynlluniwyd ar gyfer yr ail flwyddyn
- o ran 2021, byddai arbedion y Cyngor yn deillio o pan fo'r ADM yn dechrau masnachu a derbynir y gallai elw busnes hamdden amrywio, fel y gallent pe bai'r gwasanaethau hamdden yn parhau i fod yn fewnol, a phe bai pwysau'n codi byddai angen mynd i'r afael â nhw
- cadarnhawyd y byddai'r Grŵp Buddsoddi Strategol yn adolygu'r achos busnes ar gyfer SC2 ar ddechrau'r flwyddyn newydd

Wrth ymateb i gwestiynau gan rai nad oeddent yn aelodau Cabinet, bu i'r Cynghorydd Thompson-Hill-

- gyfeirio at yr amrywiaeth o ddewisiadau a nodwyd i liniaru diffyg yn y sefyllfa fasnachu yn SC2 ym mlwyddyn 1. Dim ond unwaith y gellir defnyddio'r dull o oedi costau Benthycia Darbodus a gwnaed y penderfyniad i'w ddefnyddio er mwyn galluogi'r arbediad ADM o £850,000 fel rhan o gyllideb 2019/20 a lliniaru toriadau cyllidebol i wasanaethau eraill yn hytrach na'i roi o'r neilltu ar gyfer unrhyw golledion posibl yn SC2, yr argymhelliad oedd trosglwyddo arian parod o'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Cyflawni Arbedion at y diben hwnnw
- o ran effeithlonrwydd staff, roedd yr achos busnes wedi awgrymu strwythur staffio ar gyfer niferoedd a swyddogaethau gofynnol, wrth i'r sefyllfa ddatblygu gosododd y tîm rheoli'r strwythur staffio mwyaf effeithlon ar waith i weithredu'r gwasanaeth ar y gost economaidd gorau gan arwain at arbedion.
Ychwanegodd Rheolwr Gyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych bod rhywfaint o staff tymhorol yn cael eu cyflogi oherwydd bod gan y cyfleuster dueddiadau tymhorol. Fodd bynnag roedd staff ar gontract yn cael eu cyflogi ac yn cael eu hadleoli i safleoedd eraill pan nad oeddent yn gweithio yn SC2 yn hytrach na defnyddio staff achlysurol oherwydd roedd yn well buddsoddi yn y staff sydd wedi'u cyflogi yn hytrach na phenodi staff newydd ym mhob tymor. Collwyd rhai aelodau o staff oherwydd yr ystod o staff a benodwyd am resymau amrywiol - ond roedd yr oriau gweithredu presennol yn ystod y tymor yn unol â'r achos busnes.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Meirick Davies at yr adeilad newydd ar gyfer Ysgol Llanfair a gofyn a oedd unrhyw gam gweithredu i adennill y costau gyda'r newidiadau i'r system i ddraenio dŵr budr o ganlyniad i'r cyngor a gafwyd gan Ddŵr Cymru. Eglurodd y Cynghorwyr Julian Thompson-Hill a Huw Hilditch—Roberts bod Dŵr Cymru wedi egluro mai dangosol oedd y cynlluniau ac felly byddai'n annhebygol y gallai'r Cyngor adennill unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i hynny. Eglurodd yr Arweinydd mai'r flaenoriaeth oedd cwblhau'r gwaith ac yna ailymweld â'r mater a chymryd cyngor cyfreithiol.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn –

- (a) *nodir cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2019/20 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb, a*
- (b) *chymeradwyo trosglwyddo cyllid arian parod o'r Gronfa Wrth Gefn i Gyflawni Arbedion i'r Gwasanaethau Hamdden i'w osod yn erbyn yr angen i ddyrannu i'r arbedion Benthycia Darbodus i'r SC2 yn hytrach nag oedi cyn sefydlu'r Model Darparu Amgen.*

6 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau'r ychwanegiadau canlynol -

- Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif:
Cynigion Band B- Tachwedd
- Ardal Gwella Busnes (BID) Llangollen – Ionawr

PENDERFYNWYD nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol, dan ddarpariaethau Adran 100(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A o'r Ddeddf.

7 CASTELL BODELWYDDAN

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad cyfrinachol yn ceisio adolygiad y Cabinet o delerau gwerthiant yr eiddo.

Eglurwyd a thrafodwyd manylion y telerau arfaethedig ar gyfer gwerthu rhydd-ddaliad Gwesty Castell Bodelwyddan a rhan o'r ystâd ynghyd â chadw'r ardaloedd eraill ar gyfer mynediad cyhoeddus. Tynnwyd sylw at y gwahaniaethau i'r adroddiad blaenorol a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Medi 2018 ac eglurwyd a chadarnhawyd bod y derbyniad cyfalaf i'r Cyngor yn parhau i fod yr un fath. Darparwyd diweddariad ynglŷn â'r trafodaethau gydag Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan ynglŷn â'r brydles bresennol.

Trafododd y Cabinet yr adroddiad yn helaeth gyda'r Aelod Arweiniol a'r swyddogion ynglŷn â'r ystiriaethau ariannol, gan gynnwys sut yr oedd y ffigyrau a nodwyd yn yr adroddiad wedi'u deillio ynghyd â'r cyfrifoldebau ariannol ac atebolrwydd y partion dan sylw o dan y brydles bresennol ac wrth symud ymlaen â'r gwerthiant. Trafodwyd rheolaeth ac uchelgais ar gyfer yr ardaloedd a gedwir gan y Gwasanaethau Cefn Gwlad a fyddai'n destun cynigion cyllid i'r Grŵp Buddsoddi Strategol. Nododd y Cabinet fanteision y gwerthiant o ran diogelu dyfodol yr adeilad a sicrhau ei lwyddiant yn y dyfodol gyda buddion i'r economi leol a thwristiaeth ynghyd â chadw ardaloedd ar gyfer mynediad i'r cyhoedd a chyfleoedd yn ymwneud â hynny. O ganlyniad cefnogodd y Cabinet argymhellion yr adroddiad ac fe-

BENDERFYNWYD –

- (a) dylai'r Cyngor werthu'r rhydd-ddaliad yng Ngwesty Castell Bodelwyddan ar delerau a nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad;*
- (b) dylai'r Cyngor werthu'r rhydd-ddaliad yn y Castell, eiddo Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan, (ac eithrio tir ar osod ar denantiaeth amaethyddol, y Lodge a thir parc) ar delerau a nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad;*
- (c) y Cyngor i gadw'r tir parc a maes parcio ynghyd â phrydles 999 mlynedd y coetir a'r ddôl, i ddarparu mynediad i'r cyhoedd dan ofal y Gwasanaethau Cefn Gwlad (ar yr amod bod y Grŵp Buddsoddi Strategol yn cymeradwyo'r cyllid gofynnol i sefydlu a chynnal yr ardal a gedwir gan Gyngor Sir Ddinbych);*
- (d) bod tir sydd ar hyn o bryd ar denantiaeth amaethyddol yn cael ei gadw a'i reoli ar y cyd â thir a ffermydd amaethyddol eraill y Cyngor, a*
- (e) bydd y lodge bychan ar derfyn dwyreiniol y stad yn cael ei gadw gan y Cyngor nes ceir adolygiad o'i ddefnydd.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.10am.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r Cabinet

Dyddiad y Cyfarfod 19 Tachwedd 2019

Aelod / Swyddog Arweiniol: Cynghorwyr Tony Thomas/ Liz Grieve

Awdur yr Adroddiad Bethan Hughes

Teitl Strategaeth Llyfrgell 2019-22

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae Strategaeth Llyfrgell 2019-22 yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yn Sir Ddinbych a'i nodau i'w cyflawni yn y tair blynedd nesaf. Mae hefyd yn dangos sut mae ein llyfrgelloedd yn cyfrannu at nodau a chynlluniau strategol lleol a chenedlaethol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu gwybodaeth am y weledigaeth, cyd-destun strategol a phrif flaenoriaethau strategol i'r gwasanaeth llyfrgell gyhoeddus yn Sir Ddinbych hyd at 2022.

2.2. Strategaeth wedi'i gyhoeddi ar gyfer gwasanaeth llyfrgell yr awdurdod yw un o'r hawliau craidd sy'n ofynnol o fewn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi ystyried ac ardystio'r strategaeth.

3.2. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 2) fel rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae'r Strategaeth Llyfrgell 2019-22 yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yn Sir Ddinbych a'i nodau i'w cyflawni yn y tair blynedd nesaf. Mae hefyd yn dangos sut mae ein llyfrgelloedd yn cyfrannu at nodau a chynlluniau strategol lleol a chenedlaethol.

4.2. Gweledigaeth y gwasanaeth llyfrgell yw:

- llyfrgelloedd yw calon y cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu – llefydd niwtral i ymddiried ynddyn nhw, lle mae croeso i bawb o bob oed, cefndir a sefyllfa ariannol.
- darllen yn hanfodol i bawb er eu lles, er mwyn dysgu ac er mwyn llwyddo, a bod llyfrgelloedd yn rhoi mynediad i bawb at y deunydd a'r adnoddau darllen a datblygu llythrennedd maen nhw eu hangen ar gyfer eu hanghenion.
- mae gan bawb hawl i allu cael gwybodaeth ar ei holl ffurfiau – ar brint, yn ddigidol a chan bobl – ac mai rôl llyfrgelloedd yw helpu pobl i gael mynediad at y wybodaeth a'r sgiliau y maen nhw eu hangen er mwyn gallu bod yn rhan o fywyd modern.

4.3 Mae prif ystadegau perfformiad yn dangos bod Sir Ddinbych yn y rhestr o'r 10 awdurdod uchaf yng Nghymru am ymweliadau corfforol a rhith, bod % o aelodau gweithredol (aelodau sydd wedi benthycu eitem neu ddefnyddio cyfrifiadur yn y 12 mis diwethaf), sesiynau cymorth digidol, presenoldeb mewn digwyddiadau, a chymryd rhan mewn Sialens Ddarllen Yr Haf.

4.4 Cost gyffredinol y gwasanaeth yn 2018-19 oedd £1,549,135, a oedd yn £2.94 i bob ymweliad â'r llyfrgell. Bu i astudiaeth yn Nghymru yn 2013, a gomisiynwyd gan ALMA-UK (Archives Libraries Museums Alliance), gyfrifo gwariant defnyddiwr llyfrgell ar gyfartaledd mewn siopau/ caffi lleol ayyb yn £8.07. Ar sail y ffigur hwn, mae Gwasanaeth Llyfrgell Sir Ddinbych yn gwneud cyfraniad i economi'r stryd fawr lleol sydd yn 3 gwaith mwy o'r gost.

4.5 Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn cyfrannu at prif strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, a mae'r strategaeth yn nodi'r prif feysydd strategol o weithgareddau a'r canlyniadau hyn a ragwelir:

- Mae bywydau pobl yn cael ei gyfoethogi ac yn llawn gwybodaeth drwy ddarllen
- Gall bobl gael mynediad at adnoddau a gwybodaeth y maent ei angen i fyw yn dda.
- Gall pobl gael mynediad at wasanaethau digidol a chael y sgiliau a hyder i wneud hyn
- Gall bobl gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau yn lleol
- Gall bobl gymryd rhan mewn diwylliant lleol bywiog

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r strategaeth yn dangos sut mae Gwasanaeth Llyfrgell yn cyfrannu at y blaenoriaethau canlynol:

- Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid
- Mae Cymunedau wedi eu cysylltu, ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a drwy gysylltiadau cludiant da
- Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny
- Cydraddoldeb
- Hyrwyddo'r Gymraeg

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 O fewn y gyllideb gyfredol. Nid oes angen cyllideb ychwanegol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1 Mae'r Asesiad o Effaith Llesiant yn dangos y bydd y strategaeth hon yn gwneud effaith gadarnhaol ar draws 7 maes, gyda 19/30 cyffredinol am gynaliadwyedd y dull.

7.2 Gan mai strategaeth drafft yw hwn, bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn dilyn a'r gobraith yw cynyddu'r sgôr o ganlyniad. Drwy ymgynghoriad â chwsmeriaid a phartneriaid cyfredol a phosibl, rydym yn bwriadu gofyn sut y gallent helpu i gyflawni'r strategaeth hon, i'w chynnwys ymhellach gyda'r gymuned, a chynyddu ymgysylltiad â chymuned h.y. cyflawni'r strategaeth gwirfoddoli.

7.4 Ni allwn ragweld unrhyw effeithiau negyddol a byddwn yn adolygu'r asesiad hwn pan fydd yr ymgynghoriad wedi'i gwblhau.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Dim

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Yn yr hinsawdd sydd ohoni o ran cyllid cyfyngedig, mae'n bwysig i ddarparu'r strategaeth hon o fewn cyllideb bresennol, ac sy'n lleihau o bosib dros y blynyddoedd yn y dyfodol. Felly bydd yn bwysig bod y gwasanaeth yn parhau i edrych ar ffyrdd arloesol i ddarparu ac ariannu i symud y gwasanaeth ymlaen.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Dim

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964

STRATEGAETH DRAFFT LLYFRGELL SIR DDINBYCH 2019-2022



Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council



llyfrgell
library



Statws presennol y ddogfen: Drafft
Cymeradwywyd gan y Prif Weithredwr
Ymgynghoriad gyda Grwpiau Ardal Aelodau
Ymgynghoriad cyhoeddus
Fersiwn terfynol i'w gyhoeddi

Mai 2019
Mehefin/Gorffennaf 2019
Awst/Medi 2019
Hydref 2019

STRATEGAETH LLYFRGELL SIR DDINBYCH

2019-2022

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yn Sir Ddinbych a'r hyn y mae'n bwriadu ei gyflawni yn y tair blynedd nesaf. Bydd hefyd yn dangos sut mae ein llyfrgelloedd yn cyfrannu at nodau a chynlluniau strategol lleol a chenedlaethol.

Beth yw ein gweledigaeth o lyfrgelloedd?

Credwn mai llyfrgelloedd yw curiad calon y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu - lleoedd niwtral, dibynadwy lle mae croeso i bawb waeth beth fo'u hoedran, cefndir, neu amgylchiadau ariannol.

Credwn fod darllen yn hanfodol i les, dysgu a ffyniant pawb, a bod llyfrgelloedd yn rhoi mynediad i bawb at y sgiliau a'r adnoddau darllen a llythrennedd sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu hanghenion.

Credwn fod gan bawb hawl i gael gafael ar wybodaeth a gwybodaeth yn ei holl ffurfiau - print, digidol a dynol - a rôl llyfrgelloedd yw helpu pobl i gael mynediad i'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ymgysylltu'n llawn â bywyd modern.

Fel gwasanaeth, ein nod yw datblygu, cyflwyno a hyrwyddo'r profiad gorau i gwsmeriaid trwy fod yn ddewr, yn greadigol ac wedi ymrwymo i ragoriaeth.

“Mae llyfrgell yng nghanol cymuned yn groes rhwng allanfa argyfwng, rafft bywyd a gŵyl. Maent yn gadeirlanau'r meddwl; ysbytai'r enaid; parciau thema'r dychymyg. Ar ynys glawog oer, hwy yw'r unig fannau cyhoeddus cysgodol lle nad ydych chi'n ddefnyddiwr, ond yn ddinesydd.”

Caitlin Moran

Llyfrgelloedd yn Sir Ddinbych

Mae llyfrgelloedd yn Sir Ddinbych yn darparu'r gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus statudol a'r gwasanaeth wyneb yn wyneb ar gyfer cwsmeriaid ar ran y Cyngor o wyth llyfrgell yn y Rhyl, Prestatyn, Rhuddlan, Llanelwy, Dinbych, Rhuthun, Corwen a Llangollen. Mae Gwasanaeth Llyfrgell Gartref yn darparu gwasanaeth wedi'i deilwra i bobl nad ydynt yn gallu cael mynediad i'w llyfrgell leol oherwydd gwendid, anabled neu gyfrifoldebau gofalu. Mae llyfrgelloedd hefyd yn darparu gwasanaeth digidol 24/7 ar gyfer lawrlwytho llyfrau, cael gafael ar wybodaeth ac archebu llyfrau corfforol; a darparu cyfleusterau i bobl gael mynediad at ystod o wasanaethau cymorth a chyngor yn eu cymuned leol.

Rheolir llyfrgelloedd o fewn Gwasanaeth Cymunedau a Chwsmeriaid y Cyngor.

Ystadegau allweddol 2018-19

- 401,234 o ymweliadau corfforol â llyfrgelloedd (8^{ed} safle yng Nghymru)
- 125,454 o ymweliadau rhithiol i'r wefan (6^{ed} safle yng Nghymru)
- 356,050 o eitemau wedi eu benthyg (gan gynnwys lawrlwythiadau digidol)
- 53,691 defnydd o gyfrifiaduron
- 51,192 o bobl wedi mynychu 4,414 o weithgareddau
- 41,225 o bobl wedi cael cymorth i ddefnyddio cyfrifiaduron a mynd ar lein (safle 1^{af} yng Nghymru)
- 19.2% o'r boblogaeth yn ddefnyddwyr gweithgar (y % uchaf yng Ngogledd Cymru, 5^{ed} safle yng Nghymru)
- 29.5% o blant 4-12 oed wedi cymryd rhan yn Sialens Ddarllen yr Haf 2018 (safle 1^{af} yng Nghymru, cyfartaledd Cymru 11.5%)

Cost y gwasanaeth

- Cyfanswm cost darparu'r Gwasanaeth Llyfrgell yn 2018-19 oedd £1,549,135, gyda £197,792 yn gost cynnal yr wyth adeilad llyfrgell.
- Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn costio £16.27 y pen i bob oedolyn a phlentyn sy'n byw yn Sir Ddinbych
- Mae'r gwasanaeth yn cyflogi 35 o staff (cyfwerth llawn amser neu FTE)
- Y gost fesul ymweliad llyfrgell oedd £2.94
- Fe gyfrodd astudiaeth yn 2013 yn Nghymru, a gomisiynwyd gan ALMA-UK (Archives Libraries Museums Alliance), fod gwariant ymwelydd llyfrgell ar gyfartaledd mewn siopau a chaffis lleol ayyb yn £8.07. Yn seiliedig ar y ffigwr hwn, mae Gwasanaeth Llyfrgell Sir Ddinbych yn gwneud cyfraniad o bron i dair gwaith ei gost i'r economi stryd fawr lleol.
- Mae cyfanswm buddsoddiad cyfalaf o £1,018,531 wedi ei wneud dros y tair blynedd diwethaf (gan gynnwys £120,000 o grant AAALI/MALD) ar ddiweddaru ac adnewyddu y llyfrgelloedd yn Ninbych, Llanelwy, Rhuddlan a'r Rhyl.

Ymgysylltu hefo'n cwsmeriaid

Rydym yn ymgysylltu â'n cwsmeriaid yn ddyddiol wrth iddynt ymweld â'n llyfrgelloedd a siarad â staff, a thrwy gyfryngau cymdeithasol. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein gwasanaeth ac awgrymiadau ar gyfer gwella. Rydym yn cynnal arolwg cwsmeriaid o oedolion a phlant o leiaf unwaith bob tair blynedd (fel sy'n ofynnol gan Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru). Bydd ein Strategaeth Gwirfoddoli yn rhoi cyfle i bobl ymgysylltu yn fwy dwys â'r gwasanaeth trwy rannu eu hamser a'u sgiliau i gefnogi eu llyfrgell leol.



401,234 ymweliad i lyfrgelloedd lleol




Daeth 35,235 o bobl i ddigwyddiad



Benthycwyd 328,075 o lyfrau



Defnyddiwyd cyfrifiaduron cyhoeddus 53,691 gwaith



Dyweddodd 96% fod gofal cwsmer yn dda iawn neu'n dda



Mae 19.2% o bobl Sir Ddinbych yn aelodau llyfrgell gweithgar

Cyd-destyn strategol

Mae llyfrgelloedd yn cyfrannu at bolisiau a chynlluniau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol allweddol gan gynnwys:

- **Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych 2017-2022**
- **Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2018-2023**
- **7 nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
- **Llyfrgelloedd Cysylltiedig ac Uchelgeisiol: Chweched fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-20**

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

Mae Llyfrgelloedd Cysylltiedig ac Uchelgeisiol: chweched fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-20 Llywodraeth Cymru yn cynnwys 12 hawl craidd ac 16 o ddangosyddion ansawdd i fonitro pa mor dda y mae gwasanaethau llyfrgell yn gwireddu manteision i bobl leol. Mae'r fframwaith yn nodi'r cyfraniad clir y mae llyfrgelloedd yn ei wneud i saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol trwy gyflawni'r canlyniadau a'r effeithiau canlynol i drigolion:

- Bydd pobl yn gallu cynyddu eu gwybodaeth/sgiliau ar ôl defnyddio'r llyfrgell
- Bydd pobl yn gallu cymryd rhan mewn darllen a digwyddiadau diwylliannol eraill a drefnir gan y gwasanaeth llyfrgell
- Bydd pobl yn teimlo'n rhan o gymuned wrth ddefnyddio'r gwasanaeth llyfrgell
- Bydd pobl yn gallu manteisio ar y cyfleoedd a gynigir yn y byd digidol gan ddefnyddio'r gwasanaeth llyfrgell
- Mae iechyd a lles personol yn cael ei wella trwy ddefnyddio'r llyfrgell
- Gall pobl gymryd rhan lawnach mewn materion lleol drwy'r cyfleusterau yn y llyfrgell

Yn 2018-19, roedd Sir Ddinbych yn cyfarfod pob un o'r 12 hawl creiddiol. O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â tharged, mae Sir Ddinbych yn cyflawni 8 yn llawn, 1 yn rhannol ac yn methu cyflawni 1.

Ein meysydd strategol allweddol

Mae bywydau pobl yn cael eu cyfoethogi a'u llywio gan ddarllen

Byddwn yn cefnogi hyn drwy

- Hyrwyddo Darllen er pleser a'i effaith ar les a chyrhaeddiad
- Hyrwyddo Darllen ar gyfer gwybodaeth, dysgu a lles
- Dewis, rheoli a darparu mynediad i lyfrau a gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffurfiau print a digidol
- Darparu amrywiaeth o weithgareddau i annog a chefnogi hyn (grwpiau darllen, digwyddiadau, arddangosfeydd, gweithgareddau ymgysylltu)
- Darparu gwasanaethau darllen teilwra i gynulleidfaedd penodol megis
 - o plant a phobl ifanc (Dechrau Da, Sialens Ddarllen yr Haf, gweithio gydag ysgolion, gweithgareddau gwyliau)
 - o pobl sy'n byw gyda chyflyrau iechyd neu anableddau (cynlluniau Darllen yn Well, ffurfiau print a digidol amgen, Gwasanaeth Llyfrgell Gartref)

Cyfrannu at

Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i adeiladu annibyniaeth a gwytnwch

Mae cymunedau wedi'u cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau trafndiaeth da

Lle y bydd pobl iau eisiau byw a gweithio a meddu ar y sgiliau i wneud hynny

Cynllun Lles BGC Conwy a Sir Ddinbych

Pobl - cefnogi lles meddyliol da i bob oedran

Cymuned - cefnogi grymuso cymunedau

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Cymru lewyrchus

Cymru iachach

Cymru fwy cyfartal

Cymru o gymunedau cydlynol

Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg

ffyniannus

"Mae'r llyfrau llafar yr ydych wedi'u cyflwyno i mi yn hollol wych. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cartref wedi agor byd newydd i mi ac rydw i mor ddiolchgar"

Cwsmer sy'n byw gyda cholled golwg

"Mae'n darparu ystod dda o wasanaethau gyda staff eithriadol, cynorthwyol a siriol."

Gall pobl gael gafael ar yr adnoddau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i fyw'n dda

Byddwn yn cefnogi hyn drwy

- ❖ Darparu gwasanaethau wedi'u teilwra i gefnogi iechyd corfforol a meddyliol
 - Cynlluniau Darllen yn Well i ddarparu gwybodaeth am ddementia ac iechyd meddwl
 - Rhaglen Amser Rhigwm Dechrau Da i gefnogi iechyd meddwl mamau a datblygiad cymdeithasol ac ieithyddol babanod a phlant bach
- ❖ Mynd i'r afael ag unigrwydd a chefnogi gwytnwch drwy
 - Presenoldeb corfforol mewn cymunedau
 - Mynediad digidol i ategu'r hygyrchedd corfforol y tu allan i oriau agor
 - Cyfleoedd cymdeithasol i ddod ynghyd
 - Gwasanaeth Llyfrgell Cartref i bobl fregus
 - Grwpiau darllen
 - Cynlluniau penodol (Ffrindiau Darllen, grwpiau darllen)

Cyfrannu at

Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i adeiladu annibyniaeth a gwytnwch

Mae cymunedau wedi'u cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau trafndiaeth da

Lle y bydd pobl iau eisiau byw a gweithio a meddu ar y sgiliau i wneud hynny

Cynllun Lles BGC Conwy a Sir Ddinbych

Pobl - cefnogi lles meddyliol da i bob oedran

Cymuned - cefnogi grymuso cymunedau

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Cymru iachach

Cymru fwy cyfartal

Cymru o gymunedau cydlynol

“Ni allai ymdopi heb fynediad at lyfrau - rwy'n darllen llawer - ac mae'n helpu fy iechyd meddwl.”

“Ni ellid gwella'r llyfrgell. Staff yn rhagorol yma. Rydych chi bob amser yn helpu. Heb ddifaru diwrnod ers y 1960au pan ymunais i. Mae'r cyfan sydd angen i chi ei wybod ar gael yno.”

Gall pobl ddefnyddio gwasanaethau digidol a meddu ar y sgiliau a'r hyder i wneud hynny

Byddwn yn cefnogi hyn drwy

- Darparu mynediad ar-lein - mynediad am ddim i'r rhyngwyd, defnyddio cyfrifiaduron personol, sganwyr, cyfleusterau argraffu
- Cynnig cefnogaeth a chymorth yn ôl yr angen
- Darparu cyfleoedd dysgu i ddatblygu sgiliau, hyder a diogelwch, mewn partneriaeth â darparwyr dysgu
- Cefnogi symudiad sianeli trwy gefnogi pobl i ddefnyddio sianelau digidol i gael mynediad at wasanaethau
- Gweithio mewn partneriaeth â Sir Ddinbych yn Gweithio i sicrhau bod unigolion yn cael eu cefnogi i gyflogadwyedd
- Datblygu cyfleoedd ar gyfer creadigrwydd digidol

Cyfrannu at

Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i adeiladu annibyniaeth a gwytnwch

Mae cymunedau wedi'u cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau trafndiaeth da

Lle y bydd pobl iau eisiau byw a gweithio a meddu ar y sgiliau i wneud hynny

Cynllun Lles BGC Conwy a Sir Ddinbych

Pobl - cefnogi lles meddyliol da i bob oedran Cymuned - cefnogi grymuso cymunedau

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Cymru lewyrchus

Cymru iachach

Cymru fwy cyfartal

Cymru o gymunedau cydlynol

“Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn ddeniadol ac mae'n lle gwych i gyfarfod a dysgu pethau newydd neu leddfu unigrwydd.”

“Rydw i eisiau dweud lle mor wych yw'r llyfrgell hon. Symudais i'r ardal flwyddyn yn ôl, a chefais noddfa yn y llyfrgell - gallu archebu llyfrau i mewn am ddim, cael cyngor defnyddiol, defnyddio'r siop un alwad a theimlo bod gen i wynebau cyfeillgar i'w gweld yn yr wythnos. Rydym bron wedi symud allan o'r dref ond roeddwn i eisiau aros i'r llyfrgell.”

Gall pobl gael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau yn lleol

Byddwn yn cefnogi hyn drwy

- Darparu gwasanaeth Siop Un Alwad ar gyfer holl wasanaethau'r Cyngor, gan ddelio ag ymholiadau cwsmeriaid, derbyn taliadau, a darparu gwybodaeth
- Bod yn bwynt mynediad ym mhob cymuned i wybodaeth leol a chenedlaethol i gefnogi cyflogaeth unigolion, cymunedau, iechyd, lles a dysgu
- Cefnogi unigolion i ddefnyddio sianelau digidol ar gyfer chwilio am swydd, cael mynediad i fudd-daliadau lles a gwasanaethau eraill y llywodraeth
- Darparu amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth cyfredol, perthnasol a hygyrch, gan gynnwys llyfrau, cylchgronau a ffynonellau ar-lein
- Galluogi sefydliadau partner i ddarparu eu gwasanaethau o lyfrgelloedd trwy gynnig cyfleusterau, gofod, ymwybyddiaeth a chefnogaeth
- Archwilio cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau newydd wrth i'r galw a chyfleoedd godi

Cyfrannu at

Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i adeiladu annibyniaeth a gwytnwch

Mae cymunedau wedi'u cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau trafndiaeth da

Lle y bydd pobl iau eisiau byw a gweithio a meddu ar y sgiliau i wneud hynny

Cynllun Lles BGC Conwy a Sir Ddinbych

Pobl - cefnogi lles meddyliol da i bob oedran

Cymuned - cefnogi grymuso cymunedau

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Cymru lewyrchus

Cymru iachach

Cymru fwy cyfartal

Cymru o gymunedau cydlynol

“Mae hon yn llyfrgell ardderchog oherwydd bod y staff yn wych. Nid oes dim yn ormod o drafferth. Mae'n drysor yn y dref ac yn fan cyfarfod go iawn.”

Gall pobl gymryd rhan mewn diwylliant lleol bywiog

Byddwn yn cefnogi hyn drwy

- Darparu mynediad i gyfoeth o lyfrau ac adnoddau Cymraeg
- Rheoli casgliadau o ddeunyddiau hanes lleol a darparu mynediad i adnoddau hanes teulu
- Cyflwyno rhaglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau fel lansio llyfrau, ymweliadau gan awduron, sgysiau a darlithoedd
- Galluogi sefydliadau lleol i ddefnyddio cyfleusterau llyfrgell i gefnogi a hyrwyddo eu gweithgareddau

Contributes to

Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i adeiladu annibyniaeth a gwytnwch

Mae cymunedau wedi'u cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau trafndiaeth da

Lle y bydd pobl iau eisiau byw a gweithio a meddu ar y sgiliau i wneud hynny

Cynllun Lles BGC Conwy a Sir Ddinbych

Pobl - cefnogi lles meddyliol da i bob oedran

Cymuned - cefnogi grymuso cymunedau

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Cymru lewyrchus

Cymru iachach

Cymru fwy cyfartal

Cymru o gymunedau cydlynol

Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus

“Rwyf wrth fy modd yn dod â'm merch i sesiynau Dechrau Da. Fel siaradwr di-Gymraeg rwy'n teimlo ei bod yn bwysig i'm merch gael addysg Gymraeg ac mae'r sesiynau hyn yn ddechrau perffaith i fabanod. Mae'n bendant wedi fy ysbrydoli a'm hannog i roi hi mewn ysgol Gymraeg yn y dyfodol ac o bosibl i ddechrau dysgu Cymraeg fy hun. Mae'r sesiynau hyn wedi dechrau diddordeb fy merch mewn llyfrau.”

I gyflawni'r canlyniadau hyn byddwn yn:

- ❖ **Sicrhau bod adeiladau ein llyfrgelloedd yn parhau i fod yn groesawgar, yn ddeniadol, yn addas at y diben, yn gynaliadwy, mewn lleoliadau da, ac ar agor ar adegau priodol**
 - Ceisio cyfleoedd am arian i adnewyddu, moderneiddio a chadw adeiladau llyfrgell cynaliadwy nad ydynt wedi'u hadnewyddu yn ystod y 10 mlynedd diwethaf
 - Adnewyddu cyfleusterau wrth i dechnoleg ddatblygu a newid i ddiwallu anghenion cwsmeriaid
 - Parhau i archwilio opsiynau pellach ar gyfer cyd-leoli ac adleoli gwasanaethau
- ❖ **Adeiladu partneriaethau a chydweithio**
 - Adeiladu ar y partneriaethau llwyddiannus presennol gyda Chyngor Dinas Llanellwly a Chyngor Tref Rhuddlan i ddatblygu a chynnal gwasanaethau llyfrgell mewn cymunedau lleol
 - Parhau i gydweithio yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan geisio cyfleoedd i sicrhau gwerth am arian a buddion i gwsmeriaid
 - Gweithio mewn partneriaeth â sectorau eraill i ddarparu gwasanaethau i'r gymuned leol
 - Archwilio ffyrdd newydd o ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid
- ❖ **Rheoli ein casgliadau**
 - Prynu llyfrau ac adnoddau newydd yn rheolaidd, gan wneud y gorau o'r arian sydd ar gael
 - Adolygu a golygu'r casgliadau i'w cadw'n ddeniadol, yn berthnasol ac yn ddefnyddiol
 - Cydweithio ag awdurdodau eraill i alluogi mynediad cwsmeriaid i'r ystod ehangaf o stoc
 - Hyfforddi ein staff i gefnogi anghenion darllen cwsmeriaid
- ❖ **Sicrhau bod ein cynnig digidol yn ddeniadol, yn gyfredol ac yn hygyrch, gan ddarparu adnoddau perthnasol**
 - Cynnal presenoldeb gwefan ddeniadol a llawn gwybodaeth i wasanaethu fel ffenestr siop rithwir i'n hystod o wasanaethau a chynnig
 - Bod yn rhan o gynnig cydweithredol Llyfrgell Ddigidol Cymru gyfan i sicrhau gwell gwerth am arian a mwy o ddewis i gwsmeriaid
 - Datblygu ein defnydd o gyfryngau cymdeithasol fel sianel farchnata, gwybodaeth a chyfathrebu
- ❖ **Cyflogi gweithlu medrus a hyfforddedig**
 - Galluogi staff i hyfforddi a datblygu sgiliau a gwybodaeth i gyflwyno gwasanaeth llyfrgell modern
 - Galluogi staff i ddilyn cymwysterau ffurfiol a chofrestru proffesiynol
 - Sicrhau lefel briodol o staff dwyieithog ym mhob llyfrgell
 - Creu strwythur staffio sy'n darparu llwybrau gyrfa posibl
- ❖ **Cefnogi gwirfoddolwyr**
 - Darparu strategaeth sy'n cynnig cyfleoedd i wirfoddoli yn ein llyfrgelloedd i wella ein gwasanaeth, i ddatblygu sgiliau a hyder, i wella lles ac i gyfrannu at y gymuned
- ❖ **Annog defnydd a lleihau rhwystrau**
 - Ceisio cyfleoedd i leihau unrhyw rhwystrau go iawn neu dybiedig sy'n atal pobl rhag cael mynediad at eu llyfrgell leol a'i defnyddio
 - Ceisio sianelau newydd a ffyrdd o godi ymwybyddiaeth o'r cynnig llyfrgell
 - Manteisio ar y potensial i bartneriaid eirioli dros ein gwasanaethau
 - Archwilio potensial gwasanaethau allgymorth, gan fynd â'r llyfrgell i'r gymuned
- ❖ **Cynhyrchu incwm**
 - Gyda phwysau parhaus ar y gyllideb, byddwn yn chwilio am gyfleoedd i godi incwm drwy amrywiaeth o ddulliau megis gwerthu eitemau, adolygu taliadau, llogi ystafelloedd, codi tâl am ddiwyddiadau, gwneud cais am gyllid a chwilio am bartneriaethau pellach gyda chynghorau tref a chymuned

Ein cynllun gwaith

Bob blwyddyn, byddwn yn cynllunio gweithgareddau newydd i'n helpu i gyflawni ein nodau strategol a chyfrannu at Gynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae'r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn gyfredol wedi'u cynnwys fel Atodiad 1.

Sut byddwn yn adrodd ar ein perfformiad a'n cynnydd?

Mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad blynyddol ar ein perfformiad yn erbyn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru i Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru (IAALI). Mae IAALI yn dychwelyd adroddiad asesu blynyddol i'r Cyngor a chyhoeddir yr adroddiad hwn ar wefan IAALI a gwefan y Cyngor. Cyflwynir yr adroddiad asesu hwn i Bwyllgor Craffu Perfformiad y Cyngor yn flynyddol.

Mae perfformiad llyfrgelloedd yn erbyn y 7 Dangosydd Ansawdd o fewn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru hefyd yn cael ei fonitro o fewn fframwaith mesur perfformiad Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC) ar gyfer awdurdodau lleol.

Mae Cynllun Busnes Gwasanaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata yn nodi sut y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu tuag at gyflawni Cynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae'n cynnwys llawer o ddangosyddion, mesurau a gweithgareddau sy'n ymwneud â Llyfrgelloedd a Siopau Un Alwad. Adroddir ar y rhain yn chwarterol a'u monitro gan y Pennaeth Gwasanaeth ac Aelod Arweiniol y Cabinet.

Mae rheolwyr llyfrgell a gwasanaeth cwsmeriaid yn llunio adroddiadau chwarterol ar y gweithgaredd yn eu llyfrgell ac mae'r rhain yn cael eu rhannu â phartneriaid allweddol a'u cyhoeddi ar-lein.

Mae llyfrgelloedd yn ymwneud â darllen, llythrennedd, gwybodaeth, dysgu, sgiliau, darganfod, cyfle, diwylliant, hanes, hunaniaeth, mynediad cymunedol. Mae gan lyfrgelloedd lyfrau a sawl math o bethau printiedig, TGCh, manau cyfarfod a chreadigol, manau unigol, gweithgareddau dysgu a chymunedol, llyfrgellwyr, staff hyfforddedig a phobl leol. Mae llyfrgelloedd ar gyfer pobl a'r hyn y mae pobl yn eu defnyddio ar eu cyfer. Nid ydynt yn fwy na dim: maen nhw'n ddiderfyn.

John Dolan

Atodiad 1

Cyngor Sir Ddinbych

Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata

Cynllun Busnes Gwasanaeth 2019-20 (Gweithgaredd Llyfrgell)

Canlyniad 1: Mae gwasnaethau Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata yn effeilon ac yn cael eu rheoli'n dda

- Adolygu polisi rheoli stoc a datblygu cynllun hyfforddi stoc
- Cynhyrchu a gweithredu syniadau ar gyfer cynhyrchu incwm

Canlyniad 2: Mae cymunedau wedi'u cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasnaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau trafndiaeth da

- Cyflwyno rhaglen o weithgareddau cymunedol yn Llyfrgell Dinbych yn dilyn ei hadnewyddu yn 2018
- Mynd i'r afael â ffrydiau ariannu Dechrau Da am y tair blynedd nesaf, er mwyn sicrhau ei gynaliadwyedd
- Cynnal rhaglen strwythuredig reolaidd o gyfleoedd hyfforddi digidol ym mhob un o'n wyth llyfrgell, gan weithio gyda phartneriaid
- Cynllunio rhaglen o ymgyrchoedd hyrwyddo sy'n cyd-fynd â diwrnodau / wythnosau thema cenedlaethol

Canlyniad 3: Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i adeiladu annibyniaeth a gwytnwch

- Adolygu cynnig Gwasanaeth Llyfrgell Cartref gyda phartneriaid allweddol
- Datblygu'r cynnig iechyd a lles mewn llyfrgelloedd
- Gweithio gyda Llywyr Cymunedol i hyrwyddo DEWIS trwy annog grwpiau lleol i fewnbynnu eu gwybodaeth mewn llyfrgelloedd
- Hwyluso cyfleoedd cymdeithasol newydd i bobl ddod ynghyd mewn llyfrgelloedd
- Cyflwyno cynllun i gynnwys aelodau etholedig yng ngwaith llyfrgelloedd a Siopau Un Alwad

Canlyniad 4: Mae'r amgylchedd yn ddeniadol ac wedi'i ddiogelu, yn cefnogi lles a ffyniant economaidd

- Cychwyn rhaglen o weithgareddau darllen a llenyddiaeth ar gyfer plant ac oedolion i gynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r amgylchedd naturiol

Canlyniad 5: Lle y bydd pobl iau eisiau byw a gweithio a meddu ar y sgiliau i wneud hynny

- Cynllunio rhaglen ymgysylltu â darparwyr blynyddoedd cynnar
- Datblygu rhaglen o ymweliadau dosbarth rheolaidd ac ymgysylltu ag ysgolion

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y Cyfarfod 19 Tachwedd 2019

Aelod / Swyddog Arweiniol: Y Cyng. Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid,
Perfformiad ac Asedau Strategol

